OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 327

## Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002

## RHAN II

### PERSONAU COFRESTREDIG

**Ffitrwydd y rheolwr**

**8.**—(1) Rhaid i berson beidio â rheoli cartref plant oni bai ei fod yn ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn ffit i reoli cartref plant—

(a) oni bai ei fod yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da i reoli'r cartref plant;

(b) oni bai, o roi sylw i faint y cartref plant, ei ddatganiad o ddiben, a nifer ac anghenion y plant sy'n cael eu lletya yno (gan gynnwys unrhyw anghenion sy'n codi yn sgil unrhyw anabledd)—

(i) bod ganddo'r cymwysterau, y medrau a'r profiad y mae eu hangen i reoli'r cartref plant; a

(ii) ei fod yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i wneud hynny; a

(c) oni bai bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael mewn perthynas â'r person—

(i) ac eithrio os yw paragraff (3) yn gymwys, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 1 i 6 o Atodlen 2;

(ii) os yw paragraff (3) yn gymwys, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 1 a 3 i 7 o Atodlen 2.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os nad yw unrhyw dystysgrif neu wybodaeth am unrhyw fater y cyfeirir ati ym mharagraff 2 o Atodlen 2 ar gael i unigolyn am na ddaethpwyd ag un o ddarpariaethau Deddf yr Heddlu 1997(**1**) i rym.

(**1**) *Gweler* y troednodyn i reoliad 6(4).